



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

## ***Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918**

**Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf – cais enghreifftiol a gwerthusiad:  
Ysgol Uwchradd Fitzalan**

ISBN 978 1 4734 3731 9  
© Hawlfraint y Goron Awst 2015  
WG25545

## Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd – y cynnig

**Teitl y prosiect:** Diwrnod Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a Phrofiad o'r Ffosydd

**Y deilliannau dysgu:** Bydd y dysgwyr yn gallu gweld a phrofi bywyd yn y ffos mewn ffos replica. Byddant hefyd yn deall y profiad ehangach o ryfel wrth iddynt gymryd rhan mewn carwsél o weithgareddau mewn nifer o bynciau gan ymdrin â materion fel nifer y marwolaethau, cyrchfannau'r gwirfoddolwyr o Gaerdydd, bwyd yn y ffosydd, dril Rhyfel Byd Cyntaf ac ati. Bydd bywydau a phrofiadau milwyr lleol yn cael eu harchwilio a bydd cyfraniad milwyr o'r ymerodraeth ehangach yn cael eu hymchwilio hefyd. Bydd hyn wedyn yn dod i ben mewn gweithred o goffadwriaeth fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddod â'u profiadau at ei gilydd fel y gallant werthuso effaith y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Y dysgwyr fydd yn cymryd rhan:** holl ddisgyblion CA3 (blynyddoedd 7-9)

**Amlinelliad o'r gweithgareddau gydag amserlen fras:** Bydd adeiladu'r ffos yn dechrau ym mis **Mehefin**. Bydd y ffos wedyn yn cael ei 'gwisgo' i ymddangos fel petai wedi ei gwneud yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Caiff hwn ei gwblhau yn ystod gweddill **Mehefin**. Bydd diwrnod coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf (yn ôl pob tebyg **10 Gorffennaf**), lle bydd pob disgybl CA3 yn cael eu cymryd oddi ar yr amserlen. Byddant yn cwblhau carwsél o weithgareddau, pob un yn ymdrin ag agwedd ar ryfel gan atgyfnerthu cyfraniad Cymru, fydd yn cynnwys ymweliad â'r ffos a sesiwn gydag ail-grëwr Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y diwrnod yn gorffen gyda gweithred o goffadwriaeth.

**Cysylltiadau cymunedol:** Bydd disgyblion ysgolion cynradd yn cael eu gwahodd i ddefnyddio'r ffos fel rhan o'u gweithgareddau 'diwrnod blasu' yn yr ysgol uwchradd. Byddant hefyd yn cael eu gwahodd i'r ysgol uwchradd mewn grwpiau dosbarth bach i ddefnyddio'r ffos fel adnodd dysgu yn ystod y flwyddyn ysgol. Mynegwyd diddordeb gan drigolion lleol a grwpiau ieuencid.

### Canlyniadau/gwaddol?

Bydd y ffos yn ffurfio cofeb barhaol i'r Rhyfel Byd Cyntaf a bydd yn nodwedd ym mhob un o'r dathliadau o 2014-2018 a thu hwnt. Caiff ei ddefnyddio gan ddisgyblion Fitzalan a chydag ysgolion cynradd y dalgylch fel adnodd dysgu.

### Gwariant

Adeiladu Ffos = £ 1,500

Arteffactau a gwisgoedd replica = £ 1,000

Ail-grewyr a gweithdai =£ 500

Yn ychwanegol at y £1000 rydym yn gobeithio ei dderbyn o grant Cymru'n Cofio, rydym wedi cadarnhau cyllid gan Deuluoedd yn Gyntaf. Bydd y gost ar gyfer staff yn cael ei dalu gan yr ysgol.

## **Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd, Gwerthusiad o'r Prosiect**

**Teitl y prosiect:** Diwrnod Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a Phrofiad o'r Ffosydd

**Gwerthusiad:** Gyda chymorth 'History Needs You', dyluniodd ac adeiladodd yr adran hanes replica o ffos y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r strwythur yn barhaol a bydd yn parhau i fod yn adnodd addysgu ar gyfer disgyblion Fitzalan a disgyblion o ysgolion eraill drwy gydol coffadwriaeth y canmlwyddiant. Mae'r ffos yn ffocws ar gyfer y coffa. Prynwyd arteffactau fel gwisgoedd, reiffiau replica a mygydau nwy i wella profiad disgyblion o'r ffos.

Gwelwyd y defnydd cyntaf o'r ffos a adeiladwyd ar 10 Gorffennaf 2014, gyda phob un yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cymryd rhan yn Niwrnod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Creodd pob adran ar draws yr ysgol weithgareddau a oedd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf fel yr adran gerddoriaeth yn gwneud cerddoriaeth cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr adran gelf yn gwneud pabïau papur sidan, mathemateg yn gwneud graffigau gwybodaeth mawr o ystadegau'r cleifion a anafwyd a'r adran leithoedd Tramor Modern yn ysgrifennu cardiau post o'r ffosydd yn y Ffrangeg. Dyluniodd yr adran Dylunio a Thechnoleg groesau pabi bach, pob un wedi'i harsgrifio ag enw person lleol a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd Diwrnod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnwys dau wasanaeth (un ar y dechrau ac un arall mwy myfyriol ar y diwedd) a thrwy gydol y dydd ymwelodd pob disgybl â'r ffos replica ac chael profiad o'r ail-grëwr 'Tommy'.

Mae prosiect y ffos a Diwrnod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac roedd yna ymdeimlad bod y disgyblion wedi ennill dealltwriaeth wirioneddol ddyfnach o'r Rhyfel Byd Cyntaf, ei arwyddocâd ac mewn rhyw ffordd wedi ymwneud â materion y Rhyfel Byd Cyntaf drwy brofi'r ffos. Bydd y prosiect yn parhau dros y blynyddoedd nesaf gydag estyniad posibl i'r ffos, ymchwil i hanes lleol y Rhyfel Byd Cyntaf a theithiau o bosibl i'r ffosydd go iawn a'r beddau rhyfel yng Ngwlad Belg a Ffrainc.

### **Dyma rai lluniau o'r gwaith.**

Gwefannau\*

<http://fitzalan.cardiff.sch.uk/>

\*Mae'r gwefannau neu'r tudalennau gwe y mae'r Wefan yn cysylltu â hwy (gan gynnwys Ardaloedd Rhanddeiliaid) wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig, ac nid ydynt wedi eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y cynnwys ar unrhyw wefanau neu dudalennau gwe sydd â dolennau iddynt o'r Wefan neu sydd â dolennau ynddynt i'r Wefan (gan gynnwys yr Ardaloedd Rhanddeiliaid), ac nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am unrhyw golledion neu gosbau o unrhyw fath o ganlyniad i'ch gweithred chi o glicio trwodd i wefanau neu Ardaloedd Rhanddeiliaid.